

Crëwyd argae **Llyn Celyn** ym 1965 gan Gorfforaeth Lerpwl i ddarparu dŵr i'r ddinas. Roedd rhaid boddi pentref Capel Celyn i wneud hyn ac mae rhannau o'r pentref yn dal i'w gweld pan fo'r dŵr yn isel. Roedd gwrthwynebiad chwyryn i greu'r argae yn lleol a chenedlaethol. Bu i Gyngor Dinas Lerpwl ymddiheuro 40 mlynedd ar ôl yr anfadwaith. Heddiw mae Llyn Celyn yn rhan o "Gynllun Rheoleiddio'r Dyfrdwy." Drwy'r cynllun hwn caiff dŵr yfed ei ddarparu gan Lyn Tegid, Llyn Alwen, Llyn Brennig a Llyn Celyn. Mae'r dŵr yn llifo ar hyd Afon Tryweryn, Afon Alwen, Afon Brenig a'r Afon Ddyfrdwy a'i bwmpio o'r Afon Ddyfrdwy yng Nghymru a hefyd yng Nghaer i'w ddefnyddio yn Lerpwl.

Wedi agor "Llyn Celyn" fe ddefnyddiwyd Afon Tryweryn ar gyfer **canŵio dŵr gwyllt**, yn enwedig ar gyfer cystadlaethau slalom cenedlaethol a rasys lawr afon. Gan fod llif y dŵr yn cael ei reoli mae digon o ddŵr yn yr afon bob amser – hyd yn oed yn yr haf pan fo afonydd eraill yn sychu. Bu i Brydain ddefnyddio'r afon i gynnal **Pencampwriaeth Canŵio Dŵr Gwyllt** y Byd am y tro cyntaf ym 1981. Ym 1985 sefydlwyd cynllun rafftio masnachol cyntaf Prydain ar yr Afon Tryweryn. Yna, ym 1995 agorwyd y Ganolfan Dŵr Gwyn Cenedlaethol ar lannau'r afon. Cynhaliwyd Pencampwriaeth y Byd rasio lawr afon yma ym 1995 hefyd.



Agorwyd y **rheilffordd** rhwng **Y Bala a Llan Ffestiniog** ym 1882 ac ym 1883 cafodd ei hymestyn i Flaenau Ffestiniog. Roedd y rheilffordd yn gwasanaethu chwareli llechi Ffestiniog a chwarel raean yr Arennig. Roedd codi argae Llyn celyn yn golygu boddi'r rheilffordd felly fe gaewyd y llinell ym 1961.

Fron-Goch – Pentref llawn hanes

Cafodd distyllfa wisgi ei sefydlu yma ym 1887 gan R.J. Lloyd Price. Doedd y fenter ddim yn llwyddo'n fasnachol felly fe'i caewyd ym 1910.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf daeth yr adeilad gwag yn wersyll i garcharorion rhyfel yr Almaen. Yna, yn dilyn gwrthryfel y Pasg yn Nulyn (1916) cafodd 1800 o garcharorion rhyfel Gwyddelig eu cadw yma. Yr enwocaf o'u plith oedd Michael Collins. Daeth yr 'Irish Volunteers' a'r 'Irish Citizen Army' yngyd yng ngwersyll Fron Goch i ffurfio'r Fyddin Weriniaethol - Yr IRA. Mae carreg goffa yn dynodi'r digwyddiad

pwysig hwn yn y gilfan wrth adael y pentref. Roedd Fferm Fron Goch yn gartref i Sara Evans, hen nain Abraham Lincoln.

Bywyd Gwyllt

Mae yna ddyfrgwn, eogiaid, brithyllod brown a phenllwydion yn Afon Tryweryn. Mae'r afon hefyd yn un o'r ychydig lefydd sy'n gartref i'r gragen las berlog dwr croyw sy'n tystio i lendid y dŵr. Mae'r afon yn gartref i'r lamprai hefyd, pysgodyn prin sy'n debyg iawn i'r llysywen.

Ymysg yr adar sy'n byw ar lannau'r Ddyfrdwy a'r Afon Tryweryn mae: glas y dorlan, crëyr glas, bronwen y dŵr, y siglen fraith, y siglen felen, y siglen lwyd, yr hwyaden ddanheddog, yr hwyadwydd, telor y cnau, y dringwr bach, y gnozell fraith fwyaf a'r dryw. At hyn, mae yna wahanol fathau o was y neidr, mursen a phili pala ar hyd y glannau.

I wybod mwy edrychwch ar y Canllaw Bywyd Gwyllt ar wefan Teithiau Penllyn.